

Y gyllideb ddrafft: 2023-24

Medi 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y gyllideb ddrafft:

2023-24

Medi 2022





Cynnwys

Cyflwyniad	6
Y gyllideb.....	7
Diwygio'r Senedd	9
Ffyrdd o weithio	12
Ymgysylltu	15
Llywodraethiant a rheolaeth ariannol.....	16
Y Gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau	17
Cwmpas y gyllideb	19
Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb.....	21
Atodiad 2: Manylion y gyllideb	23



Cyflwyniad

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Defnyddir cyllideb Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") i dalu costau cynnal y Senedd. Mae hefyd yn talu costau cyflogau a lwfansau'r Aelodau a'u staff fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Mae gan Aelodau o'r Senedd gyfrifoldeb sylweddol. Maent yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ac yn cytuno ar drethi yng Nghymru. Yn ei dro, mae'r Comisiwn yn darparu'r sgiliau arbenigol, y gwasanaethau cymorth a'r adnoddau i gynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu gwaith craffu, deddfu a chynrychioli.

Y gyllideb

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2023-24 yw £67.643 miliwn a bydd yn darparu ar gyfer:

- Gwariant sydd dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn, gan gynnwys cronfa brosiectau (y gyllideb weithredol);
- Gwariant sy'n ymwneud â gwaith i baratoi ar gyfer Diwygio'r Senedd;
- Dibrisiant (cost nad yw'n arian parod);
- Costau llog ar rwymedigaethau prydles fel sy'n ofynnol gan y Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 (traul anariannol)
- Y gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau;
- Y gyllideb ar gyfer costau clericio, costau gweinyddol a chostau eraill i ddarparu cymorth i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;
- Y gyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau; a'r
- Ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd dan bennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF) Trysorlys EM (Cost Cyllid Pensiwn).

Pennwyd cyllideb 2022-23 i roi sefydlogrwydd i'r Comisiwn wrth iddo ddod allan o bandemig byd-eang. Bydd y gyllideb ar gyfer 2023-24 a thu hwnt yn cefnogi blaenoriaethau'r Comisiwn wrth iddo barhau i addasu ac ymateb i newid a her sylweddol.

Mae'r gyllideb wedi'i phennu ar lefel sy'n ddigonol i alluogi'r Comisiwn i gyflawni ei uchelgeisiau a'i ofynion statudol. Mae hefyd wedi'i phennu ar lefel sy'n ystyried y cyd-destun ariannu ehangach o ran y sector cyhoeddus a Datganiad o Egwyddorion Pwyllgor Cyllid y Senedd.

Mae cyllideb weithredol y Comisiwn yn cyflwyno cynnydd 5.06 y cant o'i chymharu â 2022-23. Mae hyn yn adlewyrchu arbedion a ragwelir drwy ffyrdd newydd o weithio, sy'n rhannol yn gwrthbwysu cynnydd mewn chwyddiant ac enghreifftiau eraill o gynnydd yn y gyllideb nad yw'n ymwneud â staff, fel cynnydd mewn costau cyfleustodau a buddsoddiad cynyddol yn ein gwytnwch

seiberddiogelwch. Mae hefyd yn darparu cronfa brosiectau y bydd cynlluniau buddsoddi yn cael eu blaenoriaethu yn ôl yr angen a'r adnoddau ariannol a phersonél sy'n ofynnol i'w cyflawni. Bydd hefyd yn ariannu'r dyfarniad cyflog yn y gyllideb staffio (2.4 y cant yn 2023-24, gan ddefnyddio'r setliad pum mlynedd cyflog cytûn wedi'i gysylltu â mynegai ASHE y cytunwyd arno ag Ochr yr Undebau Llafur.

Mae'r pandemig wedi ysgogi newid yn y ffordd y mae'r Comisiwn yn gweithredu o ddydd i ddydd. Mae'r ffordd y mae hyn yn amlygu ei hun, yn ein defnydd tymor hwy o'r ystâd, bellach o dan ystyriaeth a dyma fydd ein strategaeth 'Ffyrdd o Weithio'.

Bydd cynnydd tebygol ym maint y Senedd yn 2026, o 60 i 96 Aelod, yn newid sylweddol o ran siâp a ffurf y Senedd (Diwygio'r Senedd). Bydd buddsoddiad mewn adnoddau staffio a chostau eraill yn dechrau erbyn 2023-24 os yw'r gwaith o Ddiwygio'r Senedd am gael ei gyflawni erbyn 2026.

Mae ffactorau allanol eraill yn effeithio ar gyllideb 2023-24, fel y cynnydd sylweddol mewn prisiau cyfleustodau. Y ffactor mwyaf sy'n achosi'r cynnydd mewn costau gweithredu nad ydynt yn ymwneud â staff yw'r cynnydd mewn costau ynni (tua £700,000). Er mwyn lliniaru hyn yn y dyfodol ac wedi ein hysgogi gan ein strategaeth garbon tymor hwy, mae'r Comisiwn yn bwriadu ymuno â rhwydwaith Gwresogi Ardal Caerdydd yn ystod 2024, a fydd yn defnyddio gwres gwastraff o losgydd Caerdydd i gynhesu ystâd y Senedd ac yn cynnig arbediad o'i gymharu â chostau nwy cyfanwerthu.

Diwygio'r Senedd

Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Senedd. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn mae angen i'r Comisiwn gynllunio'n effeithiol ar gyfer gofynion y Senedd yn y dyfodol yn ogystal â darparu ar gyfer ei hangen presennol.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ei adroddiad ar 30 Mai 2022. Mae cwmpas gwaith Diwygio'r Senedd yn sylweddol, gyda chynnydd arfaethedig i 96 Aelod, sef cynnydd o 60 y cant ym maint y Senedd. Ar 8 Mehefin 2022, ystyriodd y Senedd y cynnig a ganlyn a chytuno arno:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 'Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru'.
2. Yn cymeradwyo'r cyfarwyddiadau polisi a argymhellir ynghylch deddfwriaeth i Ddiwygio'r Senedd mewn digon o amser ar gyfer etholiadau nesaf y Senedd yn 2026.
3. Yn nodi bod yr adroddiad hefyd yn galw ar y Senedd i drafod nifer o faterion sy'n gysylltiedig â Diwygio'r Senedd – gan gynnwys nifer y deiliaid swyddi, y potensial ar gyfer rhannu swydd a'r gallu i gynyddu nifer y Comisiynwyr o'r nifer bresennol o 4.

Mae goblygiadau Diwygio'r Senedd yn gymhleth, yn heriol ac yn eang eu cwmpas, gyda nifer o bartïon yn ymwneud â'r broses.

Mae'r amserlenni ar gyfer Diwygio'r Senedd unwaith y bydd y deddfwriaeth wedi ei phasio yn dynn iawn. Gan hynny, mae gwerth mewn dechrau ystyried newidiadau strategol yn ystod y Chweched Senedd a fydd yn galluogi'r Senedd i weithio'n fwy effeithiol ac effeithlon yn y dyfodol, ac a fydd yn gweithredu fel sylfeini ar gyfer newid pellach wrth i benderfyniadau deddfwriaethol gael eu gwneud.

I'r Comisiwn, bydd hyn yn gofyn am ddull a reolir yn ofalus sy'n taro'r cydbwysedd cywir, o fewn cyfyngiadau gwleidyddol ac ariannol, rhwng darparu cymorth rhagorol i'r Senedd tra hefyd yn dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd, newid dyraniadau adnoddau i ddiwallu pwysau newydd a sicrhau cynnydd y gellir ei gyfiawnhau mewn cyllidebau penodol.

Costau Diwygio'r Senedd

Yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2022, trafododd y Comisiwn y costau sy'n debygol o godi yn ystod y Chwched Senedd wrth baratoi ar gyfer Diwygio'r Senedd.

Mae'r costau'n rhai dangosol ac eto i'w pennu'n llawn, ond mae'r amcangyfrifon cynnar fel a ganlyn:

	2023-24	2024-25	2025-26
	£000	£000	£000
Staff y Gyfarwyddiaeth Busnes*	£462	£471	£481
Staff y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu*	£0	£0	£0
Staff y Gyfarwyddiaeth Adnoddau*	£74	£75	£76
Costau nad ydynt yn ymwneud â staff	£35	£450	£1,730
Cyfanswm	£571	£996	£2,287

**Mae'r costau staffio hyn yn ymwneud â'r swyddi ychwanegol hynny sy'n dechrau yn 2023-24 yn unig. Mae costau staffio ychwanegol yn debygol, gyda swyddi ychwanegol yn dechrau yn 2024-25 a 2025-26, ond nid oes rhagamcanion cywir ar gael ar hyn o bryd.*

Mae costau staffio yn debygol o gychwyn yn 2023-24 i ddarparu adnoddau ar gyfer ffrydiau gwaith ar waith adolygu gweithdrefnol, cydgysylltu busnes Diwygio'r Senedd ac adolygiadau o raglenni busnes. Yn ogystal, bydd angen cymorth pellach ar lefel uwch a gweinyddol i alluogi'r staff presennol i ganolbwyntio ar Ddiwygio'r Senedd.

Rhagwelir y bydd angen swydd arall er mwyn darparu adnoddau ar gyfer rheoli'r gwaith cyfalaf sy'n gysylltiedig â Diwygio'r Senedd.

Y costau nad ydynt yn ymwneud â staff yw'r gost ar gyfer addasiadau i'r Siambr (gan gynnwys darpariaeth TGCh ychwanegol) ar gyfer 96 o Aelodau. Mae costau dangosol hefyd wedi'u cynnwys ar gyfer ad-drefnu gofod swyddfa cynllun agored yn Nhŷ Hywel i fod yn swyddfeydd unigol ychwanegol i'r Aelodau.



Ffyrdd o weithio

Ar 14 Mawrth 2022, trafododd y Comisiwn y Strategaeth Ystadau, Dyfodol Hyblyg a'r Adolygiadau Capasiti a chytunwyd i'w cyfuno yn Strategaeth 'Ffyrdd o Weithio' integredig a rhaglen gyflawni gysylltiedig a fydd:

- yn ymateb i newid yn yr amgylchedd mewnol ac allanol drwy bennu a chyflawni ei uchelgais ar gyfer y ffordd y mae staff y Comisiwn yn gweithio a'r lleoedd y maent yn gweithio ynddynt; ac
- os oes angen, yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer cyflawni mentrau cymorth, galluogi a hwyluso, nad ydynt yn ymwneud â busnes y Comisiwn mewn ymateb i Ddiwygio'r Senedd.

Nodwyd bod pum thema yn berthnasol i gyflawni'r uchelgais hwn o ran sut y bydd staff y Comisiwn yn gweithio yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy;

Lle: yr ystâd a'r amgylchedd gwaith ffisegol;

Pobl: creu gweithlu ystwyth a'i wella'n barhaus;

Darparu gwasanaethau: mewn ffordd sy'n parhau i fod yn effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian wrth i amgylcheddau mewnol ac allanol newid;

Technoleg: sut mae technoleg yn cael ei defnyddio i gefnogi ffyrdd hybrid a ffyrdd eraill o weithio;

'Dyfodol': uchelgais eang ei gwmpas i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac ategu strategaeth Carbon Niwtral 2030 y Comisiwn.

Bydd y Strategaeth yn rhoi anghenion yr Aelodau a'r Senedd yn gyntaf, ac yn cynnwys uchelgeisiau sy'n sicrhau effaith gadarnhaol i'r Aelodau a'u staff cymorth drwy ddarparu gwasanaethau mwy ymatebol, effeithlon ac effeithiol.

Strategaeth Ystadau

Mae'r Comisiwn yn datblygu ei Strategaeth Ystadau fel rhan o'r rhaglen strategol newydd 'Ffyrdd o Weithio', gan ystyried y newidiadau i'n gweithrediadau sy'n deillio o'r pandemig Covid. Bydd achos busnes ar gyfer dyfodol swyddfa Bae Colwyn, gan gynnwys opsiynau posibl, yn cael ei gyflwyno yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 i'w weithredu ym mlwyddyn ariannol 2023-24.

Os bydd yr opsiwn a ffefrir yn golygu bod y Comisiwn yn ymrwymo i brydles newydd yng Ngogledd Cymru, efallai y bydd angen addasu ffigurau cyfalaf a dibrisiant 2023-24, a hynny drwy Gyllideb Atodol, i adlewyrchu gofynion cyfrifyddu IFRS 16 – Prydlesi.

Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn disgwyl cael gwybodaeth fanwl am opsiynau swyddfeydd ar gyfer Aelodau a'r Comisiwn ym Mae Caerdydd yn y dyfodol gan ein hymgynghorwyr eiddo allanol. Bydd gwerth am arian, gofynion gofod yn y dyfodol (wedi'u haddasu i adlewyrchu lefelau presenoldeb yn y swyddfa ar ôl y pandemig) ac ystyriaeth o faterion seilwaith ffisegol (fel gosod ffenestri newydd) yn ffactorau allweddol i'w hystyried fel rhan o'r broses hon.

Strategaeth Pobl, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae ein strategaeth pobl bresennol, a gyhoeddwyd yn 2019, ac sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 2023, yn ganolog i gyflawni nodau strategol y Comisiwn, gan sicrhau bod gennym weithlu ystwyth sy'n cynnig y sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad cywir i gyflawni ein nodau presennol, gan baratoi ar gyfer gofynion y dyfodol.

Mae ein gwerthoedd sefydliadol yn rhai ystyrlon a real; ein hamrywiaeth yw ein cryfder, a bydd mwy o amrywiaeth yn ein gwneud yn gryfach fyth. Rydym wedi dysgu y gallwn ni wneud pethau'n wahanol iawn. Mae'r gwersi hyn yn darparu'r llwyfan angenrheidiol i gynllunio ar gyfer y newid mwyaf y mae'r sefydliad wedi'i wynebu hyd yma ac ymateb iddo. Mae ein hymrwymiad i greu gweithlu ystwyth a'i wella'n barhaus yn dibynnu ar ein diwylliant o barch, angerdd, balchder a chydweithio i ddarparu gwasanaethau effeithiol, arweinyddiaeth gynhwysol, a chapasiti a gwytnwch, yn erbyn cefndir o newid mewn ffyrdd o weithio a sefyllfa anodd yn y farchnad lafur. Bydd hyn yn gofyn am gynllunio gweithlu mewn ffordd aeddfed a hirdymor.

Mae canran sylweddol o gyfanswm gwariant gweithredu'r Comisiwn yn ymwneud â chostau staffio, gan dynnu sylw at y ffaith bod y Comisiwn yn sefydliad sy'n defnyddio llawer o wybodaeth ac sy'n cynnig gwerth i'r Senedd drwy ei bobl a'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad wrth gefnogi a gwasanaethu Busnes ac Aelodau'r Senedd. Dros y deuddeg mis nesaf, byddwn yn ailedrych ar ein Strategaeth Pobl a'n cynlluniau gweithredu, gan fireinio ymhellach y gweithgareddau blaenoriaeth a fydd yn darparu'r capasiti, y gallu a'r gwytnwch yn y modd mwyaf effeithlon i gyflawni ein hymrwymadau i ffyrdd newydd o weithio.

Costau Yswiriant Cenedlaethol

Ar 23 Medi 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Ei Fawrhydi ei bod yn bwriadu gostwng cyfradd y cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol y mae cyflogeion a chyflogwyr yn eu talu 1.25 y cant o 6 Tachwedd. Mae'r gyfradd is hon ar gyfer cyfraniadau cyflogwyr, sef 13.8 y cant, yn cael ei hadlewyrchu yn ffigurau sy'n cael eu cyflwyno yn y ddogfen hon ar gyfer cyllideb 2023-24.

Darparu gwasanaethau – Strategaeth Rheoli Adnoddau a Chynllun Cyflawni Corfforaethol

Fe wnaeth adolygiad manwl o'r gyllideb staff a'r gyllideb nad yw'n ymwneud â staff ym mis Awst 2022 nodi effeithlonrwydd ac arbedion posibl, a allai wrthbwysio rhai o'r costau a ddaw yn sgil twf yn y dyfodol. Mae'r Comisiwn wrthi'n datblygu'r opsiynau posibl hyn fel Strategaeth Rheoli Adnoddau, a fydd yn llywio ei ddull o ymdrin â gofynion adnoddau ar gyfer gweddill tymor y Chweched Senedd.

Er mwyn dod â chydlyniant a ffocws i waith y Comisiwn dros y blynyddoedd nesaf, cyflwynwyd Cynllun Cyflawni Corfforaethol ym mlwyddyn ariannol 2022-23 i gysylltu amcanion strategol, cynlluniau gwasanaeth tîm ac amcanion perfformiad unigol.

Cynaliadwyedd

Yn sail i'n holl strategaethau a nodau corfforaethol mae ymrwymiad i leihau ein hól troed carbon.

Nod y Senedd yw dangos arfer gorau o ran cynaliadwyedd yn y ffordd y mae'n gweithredu, yn unol â chyfreithiau sy'n cael eu pasio i ddiogelu amgylchedd Cymru. Rydym yn lleihau'r defnydd o adnoddau, yn dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, ac yn annog bioamrywiaeth. Fel sefydliad sydd wedi'i ardystio i'r safon ryngwladol ISO14001, rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau cyfreithiol o ddifrif hefyd, ac yn cael ein harchwilio'n rheolaidd ar ein gwaith amgylcheddol.

Fel sefydliad, ein nod yw bod yn garbon niwtral erbyn 2030, a hynny drwy haneru ein hallyriadau presennol ac yna gwrthbwysu'r hyn sy'n weddill.

Mae gennym nodau tymor byr, tymor canolig a thymor hwy, sy'n amrywio o reoli tymheredd ar lefel 'parth' ar yr ystâd i'r nod tymor hwy o newid ein polisiau teithio a chynhaliaeth mewn ffordd a fydd yn annog teithio mwy cynaliadwy.

Ymgysylltu

Sictrhau bod dinasyddion wrth wraidd yr hyn a wnawn yw un o dair prif flaenoriaeth y Comisiwn. Yn ystod y pandemig, bu diddordeb digynsail yng ngwleidyddiaeth Cymru a gwaith y Senedd, sydd wedi arwain at alw cynyddol am straeon newyddion a mwy o ymgysylltiad â'n hallbwn digidol.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn, gan ganolbwyntio adnoddau ar greu cynnwys arloesol i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy amrywiaeth o lwyfannau a'u cynnwys mewn sgysiau gwerthfawr am waith y Senedd a sut y mae'n effeithio ar eu bywydau. Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y ffyrdd newydd o weithio drwy ddefnyddio technoleg ddigidol i wella cyfranogiad a phrofiad y gynulleidfa ymhellach.

Byddwn yn buddsoddi mewn datblygu rhaglen ymgysylltu dreigl fel rhan o'n strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd, a fydd yn cynnwys profiadau wyneb yn wyneb, rhithwir a hybrid ar yr ystâd ac oddi arni.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cofnodi ymgysylltiad parhaus â'n cynulleidfaoedd yn briodol, yn ogystal â'i werthuso a'i yn gynnig, bydd angen buddsoddiad parhaus mewn dau brosiect mawr: Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ac Offer Ymgysylltu Ar-lein. Bydd y prosiectau hyn yn ychwanegol at ddatblygu meysydd allweddol megis mewnwelediad cynulleidfa, cyfryngau cymdeithasol, a gwerthuso cadarn i fod yn fwy seiliedig ar ganlyniadau a chael eu sbarduno gan effaith.

Y Senedd leuenctid Cymru

Cynhaliwyd ail etholiad y Senedd leuenctid Cymru ym mis Tachwedd 2021. Bydd yr ail dymor yn edrych ar faterion newydd y mae pobl ifanc yng Nghymru yn eu hwynebu ac yn sicrhau y bydd gwaith ac argymhellion y Senedd leuenctid gyntaf yn cael eu dwyn ymlaen.

Llywodraethiant a rheolaeth ariannol

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant corfforaethol.

Fel rhan o'i rôl, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn dangos diddordeb mawr yn yr amgylchedd rheoli ariannol mewnol ac yn ei oruchwyllo. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am bolisiâu cyfrifyddu a'r sefyllfa gyllidebol ac mae hefyd yn ymddiddori'n frwd wrth archwilio'r Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon. Mae aelodau o'r Pwyllgor hefyd wedi goruchwyllo a herio'r fframwaith sicrwydd a'r datganiad llywodraethiant.

Mae'r timau archwilio allanol a mewnol yn ffynonellau sicrwydd pwysig i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Swyddog Cyfrifyddu. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol y Comisiwn a chaiff gymorth yn ei waith gan Archwilio Cymru. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, cyhoeddwyd barn ddiamod am y datganiadau ariannol.

Yn 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Senedd Ddatganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol i'w hystyried wrth lunio eu hamcangyfrifon cyllideb blyneddol. Mae'r Comisiwn wedi cofio'r egwyddorion hyn wrth lunio ei amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2023-24. Mae'r amcangyfrif yn dryloyw a rhoddir tystiolaeth o'r angen am yr adnoddau y gofynnir amdanynt a'r budd ohonynt yn naratif y ddogfen hon.

Mae gan y Bwrdd Gweithredol (y "Bwrdd") gyfrifoldeb strategol dros sicrhau y caiff adnoddau'r Comisiwn eu defnyddio'n effeithiol, mae'n rhoi her i arweinwyr gwasanaeth ymdrechu i wella'n barhaus ac yn arwain ymdrechion i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau buddsoddi blyneddol y Comisiwn ac am flaenoriaethu buddsoddiadau yn y ffordd orau. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y gwaith cynllunio capasiti adnoddau yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn ac mae'n darparu gwaith llywodraethiant a sicrwydd ar gyfer prosiectau newid o bwys.

Y Gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

Y Bwrdd Taliadau annibynnol yw'r corff sy'n pennu cyflogau a thaliadau'r Aelodau a'u staff cymorth, a'r system cymorth ariannol sydd ei hangen i'r Aelodau gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn rhoi arian ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a/neu'n ddeiliad swydd, er enghraifft:

- cynnal swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a chostau teithio staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd i'r Aelodau y mae eu cartref yn bellter sylweddol i ffwrdd o'r Senedd (mae meini prawf cymhwysedd yn gymwys);
- chymorth i Grwpiau'r Pleidiau ac ymchwil polisi.

Mae'r Penderfyniad yn pennu cyflog sylfaenol yr Aelodau a chyflogau deiliaid swyddi ychwanegol. Mae'r Penderfyniad hefyd yn pennu'r dull ar gyfer codiadau i'r cyflogau hyn; yn 2023-24 disgwylir y bydd cyflogau'r Aelodau yn cynyddu yn unol â'r enillion cyfartalog yng Nghymru fel y'u mesurir gan yr Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion ("ASHE"), wedi'i gyfyngu ar 3 y cant. Mae cyflog sylfaenol yr Aelodau ddechrau 2022-23 wedi'i gyllidebu ar £69,958 sy'n tybio cynnydd 3 y cant ar y lefel bresennol o £67,920.

Caiff yr Aelodau gyflogi staff i'w cefnogi ym mhob agwedd ar eu rôl. Y gyllideb ar gyfer costau staff cymorth ar gyfer 2023-24 yw £9.583 miliwn, sy'n cynnwys codiad 3 y cant. Mae cynnydd 3 y cant hefyd wedi'i gymhwyso ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol, gan fod costau staff cymorth hefyd yn dilyn ASHE, wedi'i gyfyngu ar 3 y cant.

Mae'r Penderfyniad yn nodi'r ystod o gostau a lwfansau y gall yr Aelodau eu hawlio er mwyn rhedeg eu swyddfeydd a chyflawni eu dyletswyddau. Y gyllideb ar gyfer costau swyddfa yw £2.301 miliwn. Mae'r Bwrdd Taliadau yn adolygu'r elfennau

hyn o'i Benderfyniad yn flynyddol neu'n gyfnodol i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol. Nid yw'n bosibl rhagweld penderfyniadau y gallai'r Bwrdd ddewis eu gwneud yn y dyfodol. At ddibenion cyllidebu, y ffactor chwyddiant a ddefnyddir ar gyfer 2023-24 yw dachwyddwr y SYG o 2.4 y cant, gyda chynnydd chwyddiannol o 2 y cant i roi ffigurau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol.

Mae lwfans wedi'i wneud ar gyfer tanwariant o £0.5 miliwn a ragwelir yn erbyn cyfanswm y gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, sy'n dybiaeth ddarbodus yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol. Mae'n debygol y caiff swm sy'n fwy na'r £0.5 miliwn hwn ei ryddhau o'r gyllideb staff cymorth ac o'r gyllideb costau swyddfa. Mae'r dull gweithredu hwn yn helpu i reoli'r gyllideb, gan ganiatáu lefel gymedrol o arian wrth gefn os bydd y Bwrdd yn penderfynu rhoi newidiadau ar waith. Pe bai cyfanswm y gyllideb yn annigonol, e.e. oherwydd cynnydd mewn lwfansau yn ystod 2022-23 neu 2023-24, gallai fod angen paratoi Cyllideb Atodol.

Dangosir y gyllideb i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2023-24 a'r ddwy flynedd ddilynol yn Nhabl 9.

Y Comisiwn sy'n darparu cymorth i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol (ffioedd aelodau'r Bwrdd, cymorth clericio ac ati). Ers 2022-23, mae cost y cymorth hwn wedi'i neilltuo yng nghyfanswm cyllideb y Comisiwn i wella tryloywder. Ceir manylion yn Nhabl 12.

Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024.

Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau ac at ddibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys yr incwm uchaf (neu'r adnoddau cronnus) y gellir eu cadw i'w defnyddio ar y gwasanaethau ac at y dibenion hynny yn lle eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd hefyd yn nodi swm yr arian parod y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net disgwyledig sy'n ddyledus i'w talu gan y Comisiwn.

Nodir y gyllideb ar gyfer y Senedd yn 2023-24, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn yn Nhabl 1.

Tabl 1: Cyllideb 2023-24 ar gyfer y Senedd yn unol â'r gofynion

Gofynion y Senedd	2023-24 £000
Adnoddau ar wahân i adnoddau cronrus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ('y Comisiwn') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; taliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn. Adnoddau ar wahân i adnoddau cronrus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn yr Aelodau o'r Senedd	£67,643 Tabl 2
Adnoddau cronrus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn, o waredu asedau sefydlog, ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, ad-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Senedd	£170 Tabl 8
Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion namyn derbyniadau disgwylledig a TAW y gellir ei hadennill	£61,971 Tabl 3

Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb

Tabl 2: Trosolwg o'r gyllideb

Pennawd y gyllideb	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn	£000	£000	£000	£000
Cyflogau staff a chostau cysylltiedig (Tabl 4)	£27,416	£28,357	£29,033	£29,628
Adeiladau a chyfleusterau (Tabl 5)⁽¹⁾	£5,489	£6,069	£6,142	£6,216
Costau TGCh (Tabl 6)	£2,614	£2,801	£2,823	£2,839
Costau eraill (Tabl 7)	£2,002	£1,961	£1,961	£1,961
Costau Diwygio'r Senedd (Tabl 13)	£0	£571	£996	£2,287
Cyfanswm gwariant refeniw	£37,521	£39,759	£40,955	£42,931
Cyfanswm incwm (Tabl 8)	(£220)	(£170)	(£170)	(£170)
Gwariant cyfalaf (Tabl 10)	£516	£500	£500	£500
Cronfa brosiectau (Tabl 10)	£970	£1,000	£1,000	£1,000
Taliadau llog⁽¹⁾	£880	£866	£852	£838
Taliadau dibrisiant⁽¹⁾	£5,410	£5,406	£5,406	£5,406
Cyfanswm gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn	£45,077	£47,361	£48,543	£50,505
Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Aelodau				
Cyflogau'r Aelodau a chostau cysylltiedig (Tabl 9)⁽²⁾	£17,552	£17,834	£18,361	£18,903
Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau (Tabl 11)	£97	£101	£102	£104
Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol (Tabl 12)	£477	£547	£556	£566
Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad	£0	£0	£0	£500
Costau cyllid pensiwn yr Aelodau	£1,800	£1,800	£1,800	£1,800
Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn	£65,003	£67,643	£69,362	£72,378

(1) Gweler tabl 14.

(2) Yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau.

Tabl 3: Cysoni'r gofyniad adnoddau newydd â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

Gofyniad arian parod net	2023-24 £000
Gofyniad refeniw net yr Aelodau	£17,834
Swyddfa'r Comisiynydd Safonau	£101
Costau cymorth y Bwrdd Taliadau Annibynnol	£547
Costau Diwygio'r Senedd	£571
Gofyniad refeniw net y Comisiwn	£46,290
Gofyniad cyfalaf net	£500
Gwariant a reolir yn flynyddol	£1,800
Is-gyfanswm	£67,643
Addasiadau	
Dibrisiant	(£5,406)
Taliadau llog / addasiadau cyfalaf yn ymwneud ag IFRS 16	(£866)
Taliadau rhent yn ymwneud ag IFRS 16	£2,300
Newidiadau mewn darpariaethau	(£1,800)
Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr	£100
Is-gyfanswm	(£5,672)
Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru	£61,971

Atodiad 2: Manylion y gyllideb

Tabl 4: Dadansoddiad o gyflogau staff a chostau cysylltiedig

	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000	2025-26 £000
Costau staff y Comisiwn	£28,591	£29,357	£30,033	£30,628
Amcangyfrif swyddi gwag	(£1,175)	(£1,000)	(£1,000)	(£1,000)
Cyfanswm	£27,416	£28,357	£29,033	£29,628

Tabl 5: Dadansoddiad o gostau adeiladau a chyfleusterau

	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000	2025-26 £000
Rhent ac ardrethi yn cynnwys parcio ceir	£2,007	£1,895	£1,923	£1,951
Cynnal a chadw a gwaith	£1,030	£1,035	£1,035	£1,035
Diogelwch	£773	£773	£773	£773
Cyfleustodau	£582	£1,251	£1,276	£1,301
Glanhau	£533	£560	£572	£584
Arlwyo	£399	£430	£438	£447
Rhentu llungopiwyrr	£105	£65	£65	£65
Dodrefn a gosodiadau	£60	£60	£60	£60
Cyfanswm	£5,489	£6,069	£6,142	£6,216

Tabl 6: Dadansoddiad o gostau TGCh

	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000	2025-26 £000
Gwasanaethau TGCh	£571	£704	£704	£704
Darlledu	£682	£766	£788	£804
Trwyddedu a chynnal a chadw	£1,261	£1,231	£1,231	£1,231
Refeniw a defnyddiau traul	£100	£100	£100	£100
Cyfanswm	£2,614	£2,801	£2,823	£2,839

Tabl 7: Dadansoddiad o gostau eraill

	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000	2025-26 £000
Gwasanaethau iaith ar gontract allanol	£300	£300	£300	£300
Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth	£271	£300	£300	£300
Hyfforddi a datblygu	£374	£344	£344	£344
Costau adnoddau dynol eraill	£166	£166	£166	£166
Yswiriant a chostau cyfreithiol	£141	£141	£141	£141
Cyhoeddiadau	£131	£131	£131	£131
Teithio a chynhaliaeth staff	£127	£108	£108	£108
Teithio a chynhaliaeth arall	£95	£95	£95	£95
Archwilio	£75	£70	£70	£70
Cyngor arbenigol	£46	£46	£46	£46
Argraffu, deunydd ysgrifennu a phostio	£76	£60	£60	£60
Ymgysylltu academiaidd	£40	£30	£30	£30
Ymgynghori	£30	£30	£30	£30
Lletygarwch	£28	£28	£28	£28
Cyfrifyddu a gwasanaethau ariannol	£31	£26	£26	£26
Gwisgoedd a dillad	£15	£15	£15	£15
Fetio	£10	£10	£10	£10
Eitemau eraill <£20k	£46	£61	£61	£61
Cyfanswm	£2,002	£1,961	£1,961	£1,961

Tabl 8: Dadansoddiad o incwm

	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000	2025-26 £000
Gwerthiannau – siop y Senedd	(£20)	(£20)	(£20)	(£20)
Adeiladau – incwm rhentu	(£58)	(£58)	(£58)	(£58)
Incwm parcio ceir ac incwm arall	(£142)	(£92)	(£92)	(£92)
Cyfanswm	(£220)	(£170)	(£170)	(£170)

Tabl 9: Dadansoddiad o gyflogau'r Aelodau a'r costau cysylltiedig

	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000	2025-26 £000
Cyflogau Aelodau o'r Senedd ac argostau	£6,343	£6,450	£6,643	£6,843
Cyflogau Staff Cymorth yr Aelodau ac argostau	£9,468	£9,583	£9,871	£10,166
Lwfansau a Chostau Swyddfa	£2,319	£2,301	£2,347	£2,394
Tanwariant disgwyltiedig	(£578)	(£500)	(£500)	(£500)
Cyfanswm	£17,552	£17,834	£18,361	£18,903

Tabl 10: Prosiectau â blaenoriaeth ar gyfer 2023-24 (gan gynnwys cyfalaf)

	2023-24 £000
Gweithgareddau ymgysylltu ac allgymorth	£200
Gwariant arfaethedig y tîm Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau	£600
Gwariant arfaethedig y tîm TGCh	£400
Ffyrdd o weithio yn y dyfodol	£300
Cyfanswm	£1,500

Tabl 11: Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau

	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000	2025-26 £000
Costau staff	£73	£71	£72	£74
Cyngor Cyfreithiol.	£24	£30	£30	£30
Cyfanswm	£97	£101	£102	£104

Tabl 12: Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol

	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000	2025-26 £000
Costau staff	£394	£462	£471	£481
Ffioedd a threuliau	£47	£47	£47	£47
Costau a threuliau eraill	£36	£38	£38	£38
Cyfanswm	£477	£547	£556	£566

Tabl 13: Cyllideb i gefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer Diwygio'r Senedd

	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000	2025-26 £000
Costau staff yn dechrau 2023-24*	£0	£536	£546	£557
Costau staff yn dechrau 2024-25 a 2025-26*	£0	£0	£0	£0
Costau cysylltiedig â chyfalaf	£0	£35	£450	£1,730
Cyfanswm	£0	£571	£996	£2,287

* Mae'r costau staffio hyn yn ymwneud â'r swyddi ychwanegol sy'n dechrau yn 2023-24 yn unig. Mae costau staffio pellach yn debygol, gyda swyddi ychwanegol yn dechrau yn 2024-25 a 2025-26, ond nid oes rhagamcanion cywir ar gael ar hyn o bryd.

Tabl 14: Addasiad i linellau Cyllideb Atodol 2022-23 (gwybodaeth gymharol).

Disgrifiad	2022-23 Cyllideb Atodol (gosodwyd)	Addasiadau	Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer 2022-23
Rhent swyddfeydd	£40	£460	£500
Dibrisiant	£5,650	(£240)	£5,410
Llog	£1,100	(£220)	£880
Cyfanswm	£6,790	£0	£6,790

Yn dilyn adolygiad ac er mwyn hwyluso cymhariaeth, mae'r tri ffigur a ddangosir yn y tabl uchod (fel y'u cyflwynir yn y gyllideb atodol a osodwyd ar gyfer 2022-23) wedi'u haddasu i adlewyrchu'r driniaeth gyfrifyddu gywir ar gyfer TAW anadferadwy ar daliadau rhent. Dangosir y ffigurau wedi'i haddasu yn Nhabl 2. Yr effaith gyffredinol net ar gyllideb weithredol 2022-23 yw £0.